Cynghorwyr Proffesiynol

Sefydliad Cymunedol Cymru

Gyda'n gwybodaeth a'n dealltwriaeth arbenigol o anghenion mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru, gallwn gynghori ar roi i elusennau a gweithio gyda chi i ddarparu ateb wedi'i deilwra sy'n gost effeithiol a threth-effeithlon i'ch cleientiaid.

Mae gan gleientiaid ddiddordeb yn yr enillion ariannol ar eu rhoddion, yr effaith y gallant ei chael ar eu cymuned leol a'r gymynrodd y gallent ei gadael.

Dyma ble y gallwn helpu.

Mae gan ein tîm grantiau arbenigol wybodaeth helaeth am anghenion lleol ar hyd a lled Cymru a fydd, ynghyd â llawer o flynyddoedd o brofiad o baru rhoddwyr ag achosion sy'n bwysig iawn iddynt, yn sicrhau y caiff rhoddion eich cleientiaid eu targedu'n effeithiol ac yn y ffordd y maent yn ei dymuno.

Gweithio gyda ni:

Cyflym a hawdd

Rydym yn delio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, gweinyddu cronfeydd, rheoli buddsoddiadau, hyrwyddo, marchnata, diwydrwydd dyladwy ac asesiadau grantiau. Gellir sefydlu cronfeydd yn ystod cyfarfod awr o hyd.

Opsiynau sy'n effeithlon o ran treth

Rydym yn elusen gofrestredig sy'n galluogi cleientiaid i fanteisio ar ryddhad trethi megis cymorth rhodd.

Atebion wedi'u teilwra i chi

Rydym yn gweithio gyda chi er mwyn sicrhau bod eich cleient yn rhoi yn y ffordd y mae'n dymuno. Gallai hyn olygu sicrhau bod eich cleient yn aros yn ddienw wrth sefydlu cronfa neu ei gynnwys ym mhob agwedd, gan gynnwys eistedd ar banel y gronfa.

> "I'r unigolion hynny sydd am sicrhau bod dyngarwch yn rhan o'u cynlluniau, maent yn aml yn ansicr ynghylch pryd, sut a beth i'w wneud er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd mewn ffordd sy'n addas iddynt ac yn rhoi boddhad iddynt. Mae'n wych y gallwn eu cyfeirio at y cyngor a'r cymorth y gall y Sefydliad Cymunedol Cymru'eu rhoi fel cynghorwyr dyngarol penodedig."
>
> Claire Johnson
> Geldards Law Firm

Sefydliad Cymunedol Cymru

Am fwy o wybodaeth cysylltwch Katy Hales, Rheolwr, Rhodd dan Reolaeth Unigolion trwy e-bostio katy@communityfoundationwales.org.uk neu ffonwich 02920 379580